# Caethwasiaeth ddoe a heddiw

**CAETHWASIAETH 200 MLYNEDD YN ÔL**

Dros ddwy ganrif yn ôl treuliodd Thomas Clarkson saith mlynedd yn teithio 35,000 milltir ar hyd a lled Prydain ar gefn ceffyl. Ei fwriad oedd ennill cefnogaeth y cyhoedd i ddileu caethwasiaeth.

Yn 1787 perswadiodd Clarkson yr Aelod Seneddol, William Wilberforce, i ymladd yr achos yn y Senedd. Erbyn hynny roedd 24 miliwn o Affricanwyr wedi cael eu gwerthu fel caethweision a'u gyrru fel anifeiliaid i gaerau ar lan y môr, i leoedd fel Castell Cape Fort yn Ghana. Wedyn roedden nhw'n cael eu llwytho ar longau i'w cludo i'r Caribî. Credir mai dim ond 10 mil ohonynt oroesodd y daith erchyll o dri mis ar draws Môr y Canoldir, ac o'r rhai a gyrhaeddodd y planhigfeydd yn y Caribî bu farw un o bob tri o fewn tri mis.

Yn 1807 pasiodd y Senedd y ddeddf i ddileu caethwasiaeth, ac yna yn 1833 pasiwyd deddf i ryddhau pob caethwas.

## RHYDD O'R DIWEDD?

Y dydd o'r blaen roedd dau ddwsin o ferched ysgol yn cael eu harwain ar hyd corridor cul, tywyll a thamp o dan gaerau Castell Cape Coast yn Ghana. Ar hyd y corridor hwn y byddai'r caethweision yn cael eu gyrru tua'r Drws Di-droi'n-Ôl. 'Mae hynny drosodd ers dros 200 mlynedd, diolch byth,' meddai'r tywysydd, 'a meddyliwch pa mor lwcus rydych chi'.

O, ydyn, mae'r merched yna yn lwcus, ond a ydy caethwasiaeth drosodd? Ydyn nhw'n sylweddoli bod cannoedd o ferched ifanc yr un oed â nhw, yn yr un wlad â nhw, yn byw dan amodau tebyg i rai caethweision y planhigfeydd ddwy ganrif yn ôl?

Yng Ngogledd a Dwyrain Ghana mae arferiad cyntefig sy'n caniatáu i offeiriaid fynnu cael merched ifanc yn weision fel tâl am ryw bechod a wnaeth aelod o'r teulu yn erbyn y duwiau.

Cânt eu rhwygo oddi ar eu teuluoedd a'u gorfodi i lanhau a gweithio yn y caeau. Yna pan fyddant yn eu harddegau cynnar maent yn dod yn wraig neu *trokosi* i'r offeiriad. Caiff llawer ohonynt eu treisio a'u curo.

'Doeddwn i ddim gwell nag anifail,' meddai Anyos Tristoi, 36 oed, a dreuliodd 15 mlynedd fel *trokosi* wedi i'w thaid gael perthynas â gwraig i gymydog iddo. 'Cefais fy ngyrru at yr offeiriad i dalu am drosedd fy nhaid. Roedd aelodau'r teulu yn marw am ddim rheswm ac roeddwn yn gwybod, pe bawn yn dianc, y byddai mwy yn marw.'

Yn dilyn ymgyrch gan fudiad hawliau dynol, newidwyd y gyfraith yn 1998 a chafodd 3,500 o ferched eu rhyddhau. Fodd bynnag, mae tua 1,000 o ferched yn dal i fod yn *trokosi*. Oherwydd bod yr heddlu a'r cyfreithwyr yn ofni'r offeiriad, pur anaml maen nhw'n gweithredu'r gyfraith, a hyd yma does yr un offeiriaid wedi cael ei erlyn.